# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 19 Mehefin 2012** |
| Amser: | **09:20 - 11:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_19_06_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mohammad Asghar (Oscar) AC**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Gwyn R Price**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Andrew RT Davies (Cadeirydd)** |
| Tystion: | **Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Paul Dimblebee, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Alan Morris, Swyddfa Archwilio Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Tom Jackson (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1. Cynnig i ethol Cadeirydd dros dro

1.1 Gofynnodd y Clerc am enwebiadau i benodi Cadeirydd dros dro o dan Reol Sefydlog 17.22. Gwnaeth Mohammad Asghar enwebu Andrew RT Davies, ac fe'i penodwyd ar gyfer y cyfarfod hwn.

## 2. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Croesawodd y Cadeirydd dros dro yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

2.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar, yr oedd Andrew RT Davies yn dirprwyo ar ei ran, a chan Lyndsay Whittle.

## 3. Sesiwn friffio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ymgysylltiad y cyhoedd â llywodraeth leol

3.1 Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Alan Morris, Cyfarwyddwr Grŵp - Archwilio Perfformiad, roi sesiwn friffio i'r Pwyllgor ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar ymgysylltiad y cyhoedd â llywodraeth leol.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i wahodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i roi enghreifftiau o'r ymarferion i ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n cael eu rhoi ar waith gan gynghorau yng Nghymru.

3.3 Cytunodd yr Archwilydd Cyffredinol i roi enghreifftiau o arfer da a nodwyd yn ystod ei archwiliad ac i roi adborth ar ganlyniadau'r Seminar Cyd-ddysgu ar ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitemau 5 i 7.

## 5. Opsiynau ar gyfer ymdrin ag ymgysylltiad y cyhoedd â llywodraeth leol

5.1 Trafododd y Pwyllgor yr opsiynau ar gyfer ymdrin ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar ymgysylltiad y cyhoedd â llywodraeth leol.

## 6. Penderfynu ar dystion ar gyfer yr ymchwiliad i benderfyniad Llywodraeth Cymru i gaffael a chael gwared ar westy'r River Lodge gynt, Llangollen

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ba dystion yr hoffai eu gwahodd i roi tystiolaeth i'w ymchwiliad i benderfyniad Llywodraeth Cymru i gaffael a chael gwared ar westy'r River Lodge gynt, Llangollen.

## 7. Trafodaeth am broses anffurfiol Aelodau o gasglu gwybodaeth am fframwaith Rheoli Grantiau yr Alban

7.1 Trafododd y Pwyllgor yr adborth ar broses anffurfiol yr Aelodau o gasglu gwybodaeth am fframwaith rheoli grantiau yr Alban.

## 8. Papurau i'w nodi

8.1 Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod ar 12 Gorffennaf 2012.

**Trawsgrifiad**